# Pecyn Cyhoeddus

Cyngor Sir
CEREDIGION
County Council

Neuadd Cyngor Ceredigion, Penmorfa,
Aberaeron, Ceredigion SA46 0PA
ceredigion.gov.uk

08 Mawrth 2024

**Annwyl Syr / Fadam**

**Ysgrifennaf i'ch hysbysu y cynhelir Cyfarfod o'r Pwyllgor Iaith yn Siambr y Cyngor, Penmorfa, Aberaeron ac o bell trwy fideo-gynadledda Dydd Gwener, 15 Mawrth 2024 am 10.00am i drafod y materion canlynol:**

**1.** **Ymddiheuriadau**

**2.** **Datgelu buddiannau personol / buddiannau sy'n rhagfarnu**

**3.** **Cadarnhau cofnodion cyfarfod y Pwyllgor Iaith a gynhaliwyd ar 25 Mai 2023 (Tudalennau 3 - 8)**

**4.** **Materion yn codi o'r cofnodion**

**5.** **Diweddariad ar Strategaeth Hybu'r Iaith Gymraeg 2024-2029 (Tudalennau 9 - 12)**

**6.** **Diweddariad ar ganlyniadau'r Iaith Gymraeg - Cyfrifiad 2021 (Tudalennau 13 - 26)**

**7.** **Adroddiad Blynyddol Theatr Felinfach 2023-2024 (Tudalennau 27 - 30)**

**8.** **Adroddiad Blynyddol Cered – Menter Iaith Ceredigion (Tudalennau 31 - 36)**

**9.** **Hybu hyder a hyrwyddo'r Gymraeg a Chymreictod yn y gweithle (Tudalennau 37 - 38)**

**10.** **Blaenraglen Waith**

**11.** **Unrhyw fater arall y penderfyna'r Cadeirydd fod arno angen sylw brys gan y Pwyllgor**

**Atgoffir yr Aelodau y dylent lofnodi'r Gofrestr Bresenoldeb**

**Darperir Gwasanaeth Cyfieithu ar y Pryd yn y cyfarfod hwn ac mae croeso i'r sawl a fydd yn bresennol ddefnyddio'r Gymraeg neu'r Saesneg yn y cyfarfod.**

**Yn gywir**

**Miss Lowri Edwards**
**Swyddog Arweiniol Corfforaethol: Gwasanaethau Democrataidd**

**At:** **Gadeirydd ac Aelodau Pwyllgor Iaith**
**Weddill Aelodau'r Cyngor er gwybodaeth yn unig.**

**Cofnodion Cyfarfod y Pwyllgor Iaith a gynhaliwyd yn Siambr y Cyngor, Penmorfa, Aberaeron ac o bell Ddydd Iau, 25 Mai 2023**

**Presennol:** Y Cynghorydd Catrin M S. Davies (Cadeirydd), y Cynghorwyr Rhodri Davies, Gwyn Wigley Evans, Gareth Lloyd a John Roberts.

**Hefyd yn bresennol:** Y Cynghorydd Bryan Davies.

**Swyddogion yn bresennol:** Lowri Edwards, Swyddog Arweiniol Corfforaethol- Gwasanaethau Democrataidd; Nia Jones, Rheolwr Corfforaethol- Gwasanaethau Democrataidd; Carys Morgan, Swyddog Polisi Iaith; Non Davies, Rheolwr Corfforaethol- Diwylliant; Steffan Rees, Arweinydd Tîm Cered; Steffan Jones, Swyddog Enwi a Rhifo Strydoedd a Neris Morgans, Swyddog Gwasanaethau Democrataidd.

(10.00am- 12.03pm)

**1 Ymddiheuriadau**

i. Ymddiheurodd y Cynghorydd Chris James am nad oedd yn gallu bod yn bresennol yn y cyfarfod.
ii. Ymddiheurodd y Cynghorydd Gareth Lloyd y byddai'n hwyr yn ymuno â'r cyfarfod oherwydd ymrwymiadau eraill y Cyngor.
iii. Ymddiheurodd Lowri Edwards, Swyddog Arweiniol Corfforaethol- Gwasanaethau Democrataidd y byddai'n hwyr yn ymuno â'r cyfarfod oherwydd ymrwymiadau eraill y Cyngor.

**2 Datgelu buddiannau personol / buddiannau sy'n rhagfarnu**

Nid oedd unrhyw ddatganiadau o fuddiannau personol/ buddiannau sy'n rhagfarnu.

**3 Cadarnhau cofnodion cyfarfod y Pwyllgor Iaith a gynhaliwyd ar 5 Rhagfyr 2022**

CADARNHAWYD bod cofnodion cyfarfod y Pwyllgor a gynhaliwyd ar 5 Rhagfyr 2022 yn gywir.

**4 Materion yn codi o'r cofnodion**

Nodwyd y byddai cyflwyniad yn cael ei roi yn canolbwyntio ar ganlyniadau Iaith Gymraeg Cyfrifiad 2021 yn y cyfarfod nesaf. Roedd papur pwnc wedi'i gyhoeddi ac ar gael ar wefan y Cyngor.

Diolchodd y Cadeirydd i bawb am eu hymdrech i gynyddu'r defnydd o'r Gymraeg mewn cyfarfodydd Democrataidd.

**5 Adroddiad Monitro Blynyddol Safonau'r Gymraeg 2022-23**

Rhoddodd y Swyddog Iaith fraslun o fframwaith cyfreithiol Mesur y Gymraeg (Cymru) 2011 a'r gofynion i lunio Adroddiad Monitro Safonau'r Gymraeg.

Roedd yr adroddiad yn amlinellu'r cynnydd yr oedd y Cyngor wedi ei wneud wrth fynd i'r afael a gofynion gweithredu'r Safonau Iaith ar draws ei wasanaethau, ac yn canolbwyntio ar y cyfnod 1 Ebrill 2022 - 31 Mawrth 2023. Roedd yr adroddiad yn nodi'r camau gweithredu a gymerwyd er mwyn

cydymffurfio gyda gofynion y Safonau, ac wedi'i drefnu o dan y 5 Prif Safon sef:

- Safonau Darparu Gwasanaethau
- Safonau Llunio Polisi
- Safonau Gweithredu Mewnol
- Safonau Hybu (y gofyniad i ddatblygu a chyhoeddi Strategaeth 5 mlynedd)
- Safonau Cadw cofnodion

Darparwyd trosolwg o'r prif gyflawniadau yn 2022-23. Roedd Comisiynydd y Gymraeg yn disgwyl bod y Cyngor yn medru darparu tystiolaeth gyferbyn a'r dangosydd perfformiad, ac fe geir dadansoddiad llawn yn rhan o'r adroddiad.

Cydnabuwyd bod y broses o weithredu'r Safonau yn un parhaus ac roedd y Cyngor wedi ymrwymo i barhau i gyflawni gwelliannau, ac i weithredu er mwyn gwneud yn siŵr ei fod yn cyrraedd gofynion Safonau'r Gymraeg yn llaw.

Yn ystod y cyfnod adrodd nesaf, bydd ffocws ar y canlynol:

- Datblygu Strategaeth Hybu'r Gymraeg ar gyfer y cyfnod 5 myned nesaf, yn unol â Safon 145/146.
- Adolygu Canllaw Asesu Effaith Integredig, er mwyn helpu swyddogion i nodi unrhyw effaith ar y Gymraeg wrth gyflwyno penderfyniadau polisi.
- Datblygu prosiect 'Croeso Ceredigion' mewn ymgais i geisio cymhathu mewnfudwyr; y gwaith yn deillio o Fforwm Dyfodol Dwyieithog.
- Datblygu canllaw ar ddefnydd y Gymraeg ar gyfer Cynghorau Tref a Chymuned.
- Adnewyddu tudalennau 'Iaith ar Waith' ar fewnrwyd y Cyngor, cynnwys canllawiau a datblygu deunydd cymorth atodol sydd ei angen i hybu'r Gymraeg ac i gynorthwyo staff i ddefnyddio'r Gymraeg.
- Prosiect hyrwyddo ymwybyddiaeth o ddiwylliant a Chymreictod mewn cartrefi preswyl.

Nodwyd bod yr Aelodau'n cael eu hannog i ddefnyddio'r Gymraeg mewn cyfarfodydd Democrataidd a bod cyfleusterau ar gael i gefnogi hyn a oedd yn cynnwys canllaw ar gadeirio a chynnal cyfarfodydd cyhoeddus dwyieithog, ond mater i bob unigolyn oedd dewis iaith.

Gofynnodd pob awdurdod lleol yng Nghymru i gyflogeion hunanasesu eu sgiliau iaith. Mesurodd Cyngor Sir Ceredigion sgiliau iaith Gymraeg y gweithlu gan ddefnyddio Fframwaith ALTE ('The Association of Language Testers in Europe'). Argymhellwyd bod adroddiad yn egluro'r broses yn cael ei ddarparu yn y cyfarfod nesaf.

Yn dilyn cwestiynau o'r llawr, CYTUNWYD i

- Dderbyn Adroddiad Monitro Blynyddol Safonau'r Gymraeg Cyngor Sir Ceredigion (2022- 23).
- Gymeradwyo bod yr adroddiad llawn yn cael ei gyflwyno i Gabinet y Cyngor ar gyfer ei gymeradwyo a chyhoeddi ar wefan corfforaethol y Cyngor, fel sy'n ofynnol dan drefn Safonau'r Gymraeg, yn unol â Mesur y Gymraeg (Cymru) 2011.

**6 Adroddiad Cyflawniad Strategaeth Iaith Ceredigion 2018-23**

Rhoddwyd ystyriaeth i Adroddiad Cyflawniad Strategaeth Iaith Ceredigion 2018-23. Fe sefydlodd Mesur y Gymraeg (Cymru) 2011 fframwaith cyfreithiol i orfodi dyletswyddau ar sefydliadau penodol, gan gynnwys Cyngor Sir Ceredigion i gydymffurfio â safonau mewn perthynas â'r iaith Gymraeg.

- Mae Safon 145 yn gosod dyletswydd ar y Cyngor Sir i ddatblygu a chyhoeddi strategaeth 5 mlynedd sy'n esbonio sut mae'r Cyngor yn bwriadu hybu'r Gymraeg ac hwyluso defnydd y Gymraeg o fewn yr ardal ehangach.
- Mae Safon 146 yn ei gwneud yn ofynnol i asesu i ba raddau mae'r Cyngor wedi dilyn y strategaeth honno ac wedi cyrraedd y targed.

Roedd cyfnod y Strategaeth gyfredol yn dod i ben yn 2023 ac roedd yr adroddiad cyrhaeddiad wedi cael ei baratoi, gyda mewnbwn partneriaid.

Cyflwynwyd yr adroddiad mewn dau ran:

- Adroddiad Adolygu Strategaeth Iaith: sy'n adrodd ar ein dulliau o weithredu, ynghyd â'r dulliau o fesur canlyniadau
- Adroddiad ar Gyflawniad Strategaeth Iaith: sy'n adrodd ar yr holl weithgareddau a drefnwyd er mwyn hybu defnyddio'r Gymraeg (Atodiad 1)

Prif nod Strategaeth Iaith Ceredigion 2018-23 oedd anelu at gynyddu defnydd o'r iaith ym mhob agwedd ar fywyd y Sir; gosodwyd tri maes strategol i'w gyflawni yn rhan o'r strategaeth:

- Cynyddu sgiliau iaith trigolion Ceredigion
- Cynnal a chynyddu'r cyfleoedd i ddefnyddio'r Gymraeg yng Ngheredigion mewn amrywiol gyd-destunau
- Sicrhau amodau cymdeithasol sy'n galluogi'r Gymraeg i ffynnu yng Ngheredigion

Rhoddwyd crynodeb o brif lwyddiannau gweithredu'r Strategaeth Iaith. Cydnabuwyd bod Covid-19 wedi effeithio ar lawer o'r gwaith gan fod ymgysylltu yn un o'r prif nodau.

Pennodd y Strategaeth hefyd darged i gynyddu nifer y siaradwyr Cymraeg yng Ngheredigion o 47.5% i 48.5%, sef cynnydd o tua 1,500 erbyn 2023. Ers Cyfrifiad 2011, nododd canlyniadau Cyfrifiad 2021 ostyngiad o 3,286 (2%) o bobl a ddywedodd eu bod yn gallu siarad Cymraeg. Er gwaethaf gostyngiad cyffredinol, roedd cyfran yr oedolion rhwng 16-44 oed sy'n gallu siarad Cymraeg wedi cynyddu 2.2% erbyn 2021. Rhaid nodi bod angen gofal wrth ddehongli data'r Cyfrifiad gan fod y darlun yn un cymhleth iawn. Roedd arolygon eraill gan gynnwys yr Arolwg Blynyddol o'r Boblogaeth yn dangos bod canran y siaradwyr Cymraeg yng Ngheredigion wedi cynyddu. Ar hyn o bryd mae Llywodraeth Cymru yn cynnal arolwg ar y gwahanol ddata sy'n bodoli ar gyfer mesur nifer y siaradwyr Cymraeg, ac yn ceisio datrys pam bod y canlyniadau mor wahanol i'w gilydd.

Wrth adolygu cyrhaeddiad y Strategaeth Iaith, roedd yn bwysig cydnabod bod cynllunio iaith yn broses tymor hir, ac roedd gweithredu er lles y

Gymraeg yn cymryd amser i'w feithrin; fodd bynnag roedd y Cyngor yn teimlo'n hyderus bod y Strategaeth Iaith wedi gosod y seiliau cywir ar gyfer symud ymlaen i'r cyfnod 5 mlynedd nesaf. Cynhaliwyd gweithdy ar 20 Mawrth 2023 i drafod y Strategaeth Iaith Gymraeg newydd ac roedd nifer dda o aelodau'r Fforwm Dyfodol Dwyieithog yn bresennol.

Codwyd y prif bwyntiau canlynol yn ystod y trafodaethau:
- Yn dilyn cymeradwyaeth y Pwyllgor Craffu a'r Cabinet, bydd proses ymgynghori yn cychwyn yn fuan ynghylch newid cyfrwng iaith y Cyfnod Sylfaen yng Nghomins-coch, Llwyn yr Eos, Padarn Sant, Plascrug ac Ysgol Ceinewydd.
- Er i Brosiect Helo Blod Llywodraeth Cymru ddod i ben ym mis Ebrill 2022, parhaodd i ddarparu gwasanaeth cyfieithu am ddim hyd at 500 gair y mis i fusnesau a sefydliadau cymunedol. Mae Comisiynydd y Gymraeg nawr yn canolbwyntio eu hymdrechion ar 'Y Cynnig Cymraeg' i gefnogi busnesau i wneud mwy o ddefnydd o'r Gymraeg o fewn eu busnes.
- Mae ffocws yn rhaglen Arfor ar annog pobl ifanc i aros a llwyddo yn lleol. Mae cyfleoedd gwaith yng Ngheredigion, ond mae angen mwy o hyrwyddo i sicrhau bod pobl yn ddigon hyderus i ymgeisio am y rolau. Nodwyd bod llawer o brosiectau yn mynd rhagddynt gyda'r tîm Twf a Menter.
- O ystyried bod yr Urdd a'r Clybiau Ffermwyr Ifanc yn ddau sefydliad ieuenctid cryf yng Ngheredigion, roedd yn anffodus bod Eisteddfod Genedlaethol yr Urdd a Rali Clybiau Ffermwyr Ifanc yn gwrthdaro.

Yn dilyn cwestiynau o'r llawr, CYTUNWYD i dderbyn yr adroddiad, ac yn argymell cyflwyno'r Adroddiad i'r Cabinet ar gyfer cymeradwyaeth, ac er gwybodaeth yng nghyfarfod Bwrdd Gwasanaethau Cyhoeddus Ceredigion.

**7 Targedau Cered: Menter Iaith Ceredigion**

Rhoddwyd cyflwyniad i'r Pwyllgor yn amlinellu'r canlynol:
- Nod Cered
- Cyfraniad strategol
- Cyllid
- Strwythur a Staffio
- Partneriaid
- Targedau 2023-24
- Themâu (Plant, Pobl Ifanc, Y Gymuned, Dysgwyr a Seilwaith)
- Crynodeb

Codwyd y prif bwyntiau canlynol yn ystod y trafodaethau:
- Estynnwyd gwahoddiad i fynychu Ras yr Iaith yn Aberystwyth ar 22 Mehefin 2023 i ysgolion dalgylch Ysgol Penglais ac Ysgol Gyfun Gymunedol Penweddig.
- Roedd y niferoedd a gymerodd ran mewn gwahanol brosiectau yn amrywio (5 yn y Cynllun Gohebwyr Chwaraeon Ifanc ar gyfer cefnogwyr pêl-droed a 25 ar 'Ar Gered'). Roedd Cered yn awyddus i ddatblygu prosiectau ymhellach yn amodol ar gyllid a gallu.
- Rhoddwyd hyfforddiant yn y gorffennol i alluogi pobl i ddefnyddio'r offer cyfieithu sydd ar gael i'w fenthyg gan gymunedau; mae'n bosibl y gellid ymchwilio i hyn eto yn y dyfodol.

Yn dilyn cwestiynau o’r llawr, CYTUNWYD i dderbyn yr adroddiad ar dargedau Cered ar gyfer y cyfnod dan sylw ac yn nodi gwaith y Fenter wrth hyrwyddo a datblygu defnydd y Gymraeg yng Ngheredigion.

**8 Diweddariad Polisi Enwi a Rhifo Strydoedd**

Rhoddwyd sylw i’r adroddiad a roddai’r wybodaeth ddiweddaraf i’r Aelodau sut mae’r polisi enwi a rhifo strydoedd wedi datblygu yn ystod y flwyddyn ddiwethaf (Ebrill 2022- Mawrth 2023).

Yn dilyn cwestiynau o’r llawr, CYTUNWYD i nodi’r adroddiad.

**9 Blaenraglen Waith**

Awgrymwyd yr eitemau canlynol gan Aelodau'r Pwyllgor:

- Cyflwyniad ar Fframwaith ALTE
- Adroddiad ar gyfrifon Cyfryngau Cymdeithasol Ceredigion (cyfarfod Rhagfyr)
- Strategaeth newydd y Gymraeg
- Canlyniadau Iaith Gymraeg Cyfrifiad 2021

**10 Unrhyw fater arall y penderfyna’r Cadeirydd fod arno angen sylw brys gan y Pwyllgor**

Dim.

**Cadarnhawyd yng Nghyfarfod y Pwyllgor Iaith a gynhaliwyd ar 15 Mawrth 2024**

**Cadeirydd:**________________

**Dyddiad:**__________________

Mae'r dudalen yn wag yn fwriadol

 Eitem Agenda 5

## CYNGOR SIR CEREDIGION COUNTY COUNCIL

**Adroddiad i'r:** **Pwyllgor Iaith**

**Dyddiad y Cyfarfod:** **15fed o Fawrth 2024**

**Teitl:** **Diweddariad ar Strategaeth Hybu'r Iaith Gymraeg 2024-2029**

**Pwrpas yr adroddiad:** **Cyflwyno diweddariad ar Strategaeth Hybu'r Iaith Gymraeg 2024-2029 a rhannu'r amserlen ymgynghori.**

**Cefndir:**

Fe sefydlodd Mesur y Gymraeg (Cymru) 2011 fframwaith gyfreithiol i orfodi dyletswyddau ar sefydliadau penodol, gan gynnwys Cyngor Sir Ceredigion i gydymffurfio â safonau mewn perthynas â'r iaith Gymraeg.

Mae Safon 145 yn gosod dyletswydd ar y Cyngor Sir i ddatblygu a chyhoeddi strategaeth 5 mlynedd sy'n esbonio sut mae'r Cyngor yn bwriadu hybu'r Gymraeg a hwyluso defnydd y Gymraeg o fewn yr ardal ehangach. Yn rhan o'r Strategaeth mae'n ofynnol gosod targed ar gyfer cynnal neu gynyddu'r nifer o siaradwyr Cymraeg o fewn yr ardal erbyn diwedd y cyfnod 5 mlynedd dan sylw.

Yn unol â gofynion Safonau'r Gymraeg, mae'r Strategaeth hon yn gosod sut bydd y Cyngor, yn mynd ati i hybu'r Gymraeg ac i hwyluso defnydd o'r Gymraeg yn ehangach o fewn yr ardal leol, a hynny drwy gyd-weithio gyda sefydliadau sy'n aelodau o Fforwm Iaith Dyfodol Dwyieithog Ceredigion. Mae'r Strategaeth yn cefnogi gweledigaeth Llywodraeth Cymru, i greu miliwn o sïaradwyr Cymraeg yng Nghymru erbyn 2050.

**Diweddariad ar Strategaeth Hybu'r Iaith Gymraeg Ceredigion 2024-2029:**

Daeth cyfnod y Strategaeth gyfredol i ben yn 2023 gydag adroddiad cyrhaeddiad wedi ei baratoi a'i gyflwyno i'r Pwyllgor Iaith. Mae'n ofynnol felly i ni baratoi Strategaeth newydd yn unol â'r gofynion statudol.

Bydd y Strategaeth newydd yn adeiladu ar y seiliau a osodwyd gan Strategaeth Iaith 2018-23 a'r gwaith arbennig a wnaed gan y Cyngor a'i bartneriaid i gynyddu'r cyfleoedd i ddefnyddio'r Gymraeg ar draws y Sir.

Ym mis Mehefin 2023 cynhaliwyd cyfarfod gyda rhanddeiliaid ac aelodau Dyfodol Dwyieithog i drafod Strategaeth 2024-29. Yn dilyn y cyfarfod hwnnw daethpwyd a'r sylwadau a'r cynigion at ei gilydd fel sail i'r Strategaeth newydd.

Mae'r Strategaeth honno yn y broses o gael ei mireinio er mwyn gallu cyflwyno'r Drafft cyntaf i'r Pwyllgor Iaith yn y cyfarfod ddyddiedig ym mis Mehefin 2024 (dyddiad newydd i'w gadarnhau).

Mae'r drafft cychwynnol wedi gosod y nod canlynol ar gyfer y Strategaeth newydd:

> **Cynyddu defnydd o'r iaith ym mhob agwedd o fywyd y Sir. Ein gweledigaeth yw y bydd y Gymraeg a Chymreictod yn perthyn i bob un yng Ngheredigion ac yn destun balchder ymysg holl drigolion y sir.**

Yn ogystal er mwyn gwireddu'r weledigaeth gosodwyd 4 thema strategol - mae Ceredigion yn fan lle mae modd **dysgu, byw, perthyn a llwyddo** drwy gyfrwng y Gymraeg.

Drwy gyflawni'r gweithredoedd sydd wedi'u hamlygu yn y Strategaeth hon:

1. Rydym eisiau gweld pawb o fewn y Sir yn rhoi gwerth a bri i'r Gymraeg fel iaith gymunedol fyw.
2. Rydym am weld defnydd cynyddol ohoni ym mhob agwedd ar fywyd cyhoeddus yn y sir; lle mae modd i drigolion fyw, dysgu, perthyn a llwyddo trwy gyfrwng y Gymraeg.
3. Rydym am sicrhau bod dwyieithrwydd yn cael ei hybu'n gwbwl naturiol, a bod yr iaith Gymraeg yn cael ei diogelu er mwyn i genedlaethau'r dyfodol ei defnyddio a'i mwynhau.
4. Rydym yn tybio y bydd canran y siaradwyr Cymraeg yn cynyddu 1 pwynt canran o 45.3% yn 2021 i 46.3% yn 2029, bydd hyn yn arwain at 267 o siaradwyr Cymraeg pellach oddi ar y llinell sylfaen 2021.

Bydd cynllun gweithredu yn gysylltiedig â phob un o'r pedair thema.

**Amserlen:**
Yn dilyn cyflwyno'r ddogfen ddrafft i'r Pwyllgor Iaith ym mis Mehefin bydd y ddogfen yn cael ei chyflwyno i'r Cabinet cyn agor cyfnod o ymgynghori cyhoeddus yn ystod Gorffennaf ac Awst 2024. Y bwriad yw cyhoeddi'r Strategaeth derfynol ym mis Rhagfyr 2024.

**Argymhelliad:**
**Cymeradwyo bod y ddogfen ddrafft yn cael ei chyflwyno i'r Cabinet cyn agor cyfnod o ymgynghori cyhoeddus yn ystod Gorffennaf ac Awst 2024.**

**Atodiadau:**
Atodiad 1- Amserlen Ymgynghoriad Strategaeth Hybu'r Iaith Gymraeg Ceredigion 2024-29

**Enw Cyswllt:**
Carys Lloyd-Jones

**Swyddogaeth:**
Swyddog Polisi Iaith Cyngor Sir Ceredigion

**Dyddiad:**
26/2/2024

**Atodiad 1**

| **Amserlen ar gyfer** [Strategaeth Hybu'r Iaith Gymraeg 2024-2029] | Ion | Chwef | Maw | Ebr | Mai | Meh | Gorff | Awst | Medi | Hyd | Tach | Rhag |
|---|---|---|---|---|---|---|---|---|---|---|---|---|
| Ymgysylltu â'r rhanddeiliaid i asesu'r farn gyfredol. Cynnal gwaith ymchwil pen desg | **3/1** | | | | **3/5** | | | | | | | |
| Ysgrifennu eich adroddiad dadansoddi am ganlyniadau'r ymgyrch ymgysylltu, paratoi'r Asesiad Effaith Integredig cychwynnol a llunio'r strategaeth | **3/1** | | | | **3/5** | | | | | | | |
| Cyflwyno'r strategaeth drafft, yr Asesiad Effaith Integredig cychwynnol a'r adroddiad dadansoddi gerbron y Pwyllgor Craffu | | | | | | **/6** | | | | | | |
| Cyflwyno'r strategaeth, yr adroddiad dadansoddi a'r Asesiad Effaith Integredig cychwynnol i'r Cabinet. Gofyn am gymeradwyaeth i gynnal ymgynghoriad cyhoeddus (ar gyfer ymgynghoriadau statudol) | | | | | | | **2/7** | | | | | |
| Ymgynghori â'r cyhoedd ynglŷn â'r strategaeth drafft | | | | | | | **2/7** | | **1/9** | | | |
| Ysgrifennu adroddiad sy'n dadansoddi'r ymgynghoriad, diwygio'r Asesiad Effaith Integredig os oes angen a pharatoi'r strategaeth terfynol | | | | | | | | | **1/09** | **1/10** | | |
| Cyflwyno'r strategaeth terfynol, yr Asesiad Effaith Integredig a'r adroddiad dadansoddi i'r Pwyllgor Craffu | | | | | | | | | | | **14/11** | |
| Cyflwyno'r strategaeth terfynol, yr adroddiad dadansoddi, a'r Asesiad Effaith Integredig i'r Cabinet ei gymeradwyo | | | | | | | | | | | | **3/12** |
| Cyhoeddi'r strategaeth terfynol ar wefan y Cyngor a'i anfon drwy e-bost at y rhanddeiliaid a thimau perthnasol y Cyngor | | | | | | | | | | | | **4/12** |

Noder: Mae angen caniatáu o leiaf 3 wythnos ar gyfer cyfieithu'r dogfennau ym mhob un o'r camau hyn

Mae'r dudalen yn wag yn fwriadol

# Ystadegau ar yr Iaith Gymraeg

# Statistics on the Welsh Language


Cyngor Sir
CEREDIGION
County Council

# Cyflwyniad / Introduction

- Wedi cyflwyno ein papur pwnc ar yr Iaith Gymraeg
- Bwriad y papur pwnc:
  - Cefnogi dealltwriaeth y Cyngor o sgiliau'r Gymraeg yn y Sir
  - Sylfaen dystiolaeth i Strategaeth y Gymraeg 2023-2028
- Edrych ar y prif ganlyniadau o'r Cyfrifiad heddiw
- Edrych ar ganlyniadau'r Arolwg Blynyddol o'r Boblogaeth hefyd

- Have published our topic paper on the Welsh Language
- Aim of the topic paper:
  - Support Councils understanding of Welsh language skills in the County
  - Evidence base for Welsh language strategy 2023-2028
- Look at some of the main results from the Census today
- Look at the results from the Annual Population Survey also

# Y darlun ar draws Cymru / The picture across Wales




*Ffynhonnell: Swyddog Ystadegau Gwladol, 2021*
*Source: Office for National Statistics, 2021.*


Cyngor Sir
CEREDIGION
County Council

cyfrifiad
census
2021

# Y darlun ar draws Cymru / The picture across Wales

- Gostyngiad mwyaf yn y canran o siaradwyr Cymraeg, yn **Sir Caerfyrddin (-4.0 pwynt canran).**
- Cynyddiad mwyaf yn y canran o siaradwyr Cymraeg yng **Nghaerdydd (+1.1 pwynt canran).**

- Biggest decrease in percentage of Welsh speakers in **Carmarthenshire (-4.0 percentage points).**
- Biggest increase in the percentgae of Welsh speakers in **Cardiff (+1.1 percentage points).**




*Ffynhonnell: Swyddog Ystadegau Gwladol, 2021*
*Source: Office for National Statistics, 2021.*


Cyngor Sir CEREDIGION County Council

cyfrifiad census 2021

# Siaradwyr Cymraeg yng Ngheredigion / Welsh speakers in Ceredigion

| | 2011 | 2021 | Gwahaniaeth / Difference |
|---|---|---|---|
| % Siaradwyr Cymraeg (3 oed neu'n hŷn) / % of Welsh Speakers (aged 3 or older) | 47.3% | 45.3% | -2.0 pwynt canran / percentage points |
| Nifer y Siaradwyr Cymraeg (3 oed neu'n hŷn) / Number of Welsh Speakers (aged 3 or older) | 34,960 | 31,680 | -3,290 o bobl / people |

# Siaradwyr Cymraeg yng Ngheredigion 1981-2021/ Welsh Speakers in Ceredigion 1981-2021




*Ffynhonnell: Swyddog Ystadegau Gwladol, 1981, 1991, 2001, 2011 a 2021*
*Source: Office for National Statistics, 1981, 1991, 2001, 2022 and 2021.*

# Ceredigion – Siaradwyr Cymraeg yn ôl oedran / Ceredigion – Welsh speakers by age

| | 3 – 15 mlwydd oed / years | 16-64 mlwydd oed / years | 65+ mlwydd oed / years | Pawb dros 3 mlwydd oed / Everyone over 3 years |
|---|---|---|---|---|
| **2011** | 78.4% (7,175) | 41.9% (20,503) | 46.4% (7,286) | 47.3% (34,964) |
| **2021** | 71.8% (6,123) | 42.4% (18,219) | 39.9% (7,347) | 45.3% (31,678) |
| **Gwahaniaeth / Difference** | -6.6 pwynt canran / percentage points (-1,052) | +0.5 pwynt canran / percentage points (-2,284) | -6.5 pwynt canran / percentage points (+61) | -2.0 pwynt canran / percentage points (-3,286) |

*Ffynhonnell: Swyddog Ystadegau Gwladol, 2011, 2021*
*Source: Office for National Statistics, 2011, 2021.*

# Ceredigion – Siaradwyr Cymraeg yn Ward Etholiadol / Ceredigion – Welsh speakers by Electoral Ward

| Ward Etholiadol / Electoral Ward | % y siaradwyr Cymraeg / % of Welsh speakers |
|---|---|
| **Canran uchaf o siaradwyr Cymraeg / Highest percentage of Welsh speakers (%)** | |
| Ystwyth | 57.2 |
| Aberaeron & Aberarth | 56.3 |
| Tregaron & Ystrad Fflur | 56.1 |
| Mwldan | 54.8 |
| Llanfarian | 53.2 |
| **Canran isaf o siaradwyr Cymraeg / Lowest percentage of Welsh speakers (%)** | |
| Llanbadarn Fawr | 33.8 |
| Aberystwyth Penparcau | 32.3 |
| Aberystwyth Morfa a Glais | 29.5 |
| Faenor | 27.7 |
| Aberystwyth Rheidol | 27.6 |



*Ffynhonnell: Swyddog Ystadegau Gwladol, 2021*
*Source: Office for National Statistics, 2021.*

**31,678**

Siaradwyr Cymraeg yng Ngheredigion / Welsh Speakers in Ceredigion

(Mawrth/March 2021)

**45.3%**

o boblogaeth Ceredigion yn dweud eu bod yn gallu siarad Cymraeg / of Ceredigion's population can speak Welsh

**2.0**

Gostyngiad pwynt canran yng nghyfran y siaradwyr Cymraeg ers 2011 / Percentage point decrease in Welsh speakers since 2011

**-3,286**

o siaradwyr Cymraeg yng Ngheredigion ers Cyfrifiad 2011 / Welsh language speakers in Ceredigion since 2011 Census

**46.7%**

o breswylwyr Ceredigion yn nodi "Cymreig yn unig" fel eu cenedligrwydd / "Welsh only" as their National identity

(cynnydd o 0.1 pwynt canran ers Cyfrifiad 2011)

**57.2%**

Yn gallu siarad Cymraeg yn Ward Ystwyth, y gyfran uchaf o siaradwyr Cymraeg ar draws y Sir / Can speak Welsh in the Ystwyth Ward, highest in County

**Dadansoddiad o Sgiliau / Analysis of Skills**

Siarad Cymraeg / Speak Welsh – 45.3%

Gallu siarad Cymraeg, darllen Cymraeg ac ysgrifennu yn Gymraeg / Can speak Welsh, read Welsh and write in Welsh – 37.3%

Dim sgiliau Cymraeg / No Welsh skills – 43.6%

**Dadansoddiad o siaradwyr Cymraeg yn ôl oedran / Analysis of Welsh speakers by age**


3-15: 71.8%
16-64: 42.4%
65+: 39.9%



Cyngor Sir CEREDIGION County Council

cyfrifiad census 2021

# Arolwg Blynyddol o'r Boblogaeth / Annual Population Survey




Tudalen 22

# Arolwg Blynyddol o’r Boblogaeth / Annual Population Survey

- Methu cymharu ffigurau’r ABB a’r Cyfrifiad oherwydd methodoleg gwahanol.
- Fel yr adlewyrchir ar y sleid blaenorol– mae ffigurau’r ABB wedi bod yn gyson uwch na'r hyn a gofnodwyd gan y Cyfrifiad.
- Cynnydd dros y degawd, gan godi o 41,400 (54.4%) i 43,200 (60.4%), cynnydd o 1,800 o siaradwyr Cymraeg.
- Dylid trin cymariaethau rhwng data’r ABB gyda gofal oherwydd y newid yn y dull arolygu ers canol mis Mawrth 2020 oherwydd pandemig COVID-19.
- Y flwyddyn yn diweddu 30 Medi 2023 - 56.8% o bobl 3+ oed yn gallu siarad Cymraeg (42,700 o bobl).
- 1.3 pwynt canran yn is na'r flwyddyn flaenorol (y flwyddyn yn diweddu 30 Medi 2022), (600 yn llai o bobl).

- Cannot directly compare figures from the APS and Census because of differing methodologies.
- As shown on previous slide – APS figures consistently higher than those collected by the Census.
- Should view comparisons between APS data with caution because of a change in surveying method since the middle of March 2020 due to the COVID-19 pandemic.
- Increase over the decase, rising from 41,400 (54.4%) to 43,200 (60.4%), increase of 1,800 Welsh speakers.
- Year enging 30 September 2023 - 56.8% of people aged 3+ can speak Welsh (42,700 people).
- 1.3 percentage point lower than the previous year (year ending 30 September 2022), (600 less people).

# Casgliad / Conclusion

- Gostyngiad yn y nifer a'r % o siaradwyr Cymraeg yng Ngheredigion.
- Amrywiaethau rhwng y grwpiau oedran.
- Cofio bod y Cyfrifiad wedi cynnal yn ystod Pandemig COVID-19
- Rhesymau i fod yn optimistaidd – Cymraeg 2050 yn weddol newydd pan gynhaliwyd Cyfrifiad 2021.
- Llywodraeth Cymru'r a'r SYG wedi bod yn edrych ar y gwahaniaethau rhwng data ar yr iaith Gymraeg.

- Decrease in the number and % of Welsh speakers in Ceredigion.
- Variation between age groups.
- Remember that the Census was held during the COVID-19 pandemic
- Still reasons to be optimistic – Cymraeg 2050 was relatively new when the Census 2021 took place.
- Welsh Government and ONS have been looking at the differences between data on the Welsh language.



Build a custom area profile - Census 2021, ONS

cyfrifiad 2021 census 2021

# Diolch am wrando/ Thanks for listening

# Unrhyw gwestiynau? / Any questions?

Cyngor Sir CEREDIGION County Council

GOLUD·GWLAD·RHYDDID

Mae'r dudalen yn wag yn fwriadol

## CYNGOR SIR CEREDIGION COUNTY COUNCIL

**Adroddiad i'r:** **Pwyllgor Iaith**

**Dyddiad y Cyfarfod:** **15/3/2024**

**Teitl:** **Adroddiad Blynyddol Theatr Felinfach 2023-2024**

**Pwrpas yr adroddiad:** **Adrodd ar weithgaredd Theatr Felinfach 2023-2024**

**Cefndir:**

**Theatr Felinfach - Ein Gwaith:**
Mae Theatr Felinfach yn cynnal a datblygu miloedd o gyfleoedd celfyddydol mewn blwyddyn. Defnyddiwn ddulliau addysg anffurfiol a disgyblaethau drama, dawns, ffilm a theatr dechnegol. Datblygwn gyfleoedd a phrofiadau sydd yn hybu creadigrwydd, sgiliau, gwybodaeth a dealltwriaeth o ddiwylliant a chelfyddyd Cymru a'r byd.

Er ein bod wedi symud ymlaen bedair blynedd ers dechrau'r pandemig, Covid19, mae effaith y cyfnodau clo dal yn amlwg mewn nifer o feysydd, gan gynnwys y celfyddydau. Mae Tim Artistig Theatr Felinfach wedi gweld, ers 2022 effaith y pandemig ar unigolion a grwpiau o gyfranogwyr. Ymhlith plant a phobl ifanc, gwelwn bod diffyg hyder yn amlwg mewn nifer, gwelwn hefyd bod y diffyg profiad o weithio mewn grŵp, wyneb yn wyneb wedi cael effaith ar gyfranogwyr hefyd. Mae cyfranogi mewn disgyblaethau theatr a chelfyddydau yn datblygu hyder personol, hyder corfforol i symud mewn gofod/llwyfan, hyder i ddefnyddio llais ac i gyfrannu syniadau – o'n profiad ni, mae gwaith i'w wneud gyda'n partneriaid, ysgolion a mudiadau, i adfer ac adeiladu'r hyder hynny. Er yr heriau, mae wedi bod yn gyfnod cyffrous wrth i'r galw am ein gwaith cyfranogi gynyddu yn gyffredinol.

**Rhai o uchafbwyntiau 2023-24:**

- Datblygu 3 phrosiect dan faner Gorwel a Gwreiddiau – a oedd yn cynnwys datblygu perfformiad aml-gyfrwng gan 2 garfan o bobl ifanc, sydd fel arfer yn ei chael hi'n anodd ymgysylltu gyda gweithgareddau a ffilm Pasio Fflam Pont Llanio, prosiect rhyng-genhedlaeth gydag unigolion ac Ysgol Henry Richard.
- Arwain Gwersi Dawns fel rhan o ddarpariaeth y cwricwlwm newydd yn Ysgol Bro Pedr.
- Cynyddu ein darpariaeth ADY gan weithio mewn 4 canolfan anghenion dysgu ychwanegol Canolfan Y Mor, Canolfan y Bont, Canolfan Adnoddau Clyw Penglais a Chanolfan Cefnogi Dysgu Penglais - cynhaliwyd ffilm premiere o'u gwaith fel penllanw i'r prosiect gyda chefnogaeth a chydweithrediad Tim ADY CSC.
- Dyfeisio a llwyfannu cynhyrchiad ar gyfer pobl ifanc niwroamrywiol mewn partneriaeth â Chanolfan y Môr – Cestyll a Dreigiau.
- Cynnal ystod llawn o weithgareddau cyfranogol ar gyfer oedrannau amrywiol: Tic Toc, Symud a Sŵn, Hwyl a Hamdden, Ysgol Berfformio a Chlwb Dramatic Dyffryn Aeron a chynyrchiadau ni'n hunain – e.e. Pantomeim Nadolig Cwmni Actorion Felinfach.

- Sefydlu a dechrau prosiect peilot Celfyddydau Mynegiannol gydag ysgolion Ciliau Parc, Dihewyd a Felinfach, fel rhan o baratoadau uno fel Ysgol Dyffryn Aeron.
- Ymestyn ein prosiectau gyda ac ar gyfer plant a phobl ifanc a addysgir yn y cartref gan gydweithio ar elfennau ohono gyda Thim Cynhwysiant CSC.
- Cynllunio prosiect peilot Celfyddydau Mynegiannol gydag Ysgolion Dyffryn Aeron wrth baratoi i uno fel ysgol ardal.
- Lletya prosiectau Little Mill, Cardi-gan a Chlwb Garddio Aeron.
- Cefnogi prosiectau gwasanaethau eraill, e.e. lletya taith The ABC of Opera gyda'r Gwasanaeth Cerdd. Cynnal sesiynau cyfranogi mewn Ffeiriau Iaith dan faner y CySGA.
- Datblygu 2 berfformiad gwreiddiol gydag aelodau yr Ysgol Berfformio, yn cynnwys cynhyrchiad safle benodol yng Nghoedwig Longwood.
- Cydweithio gyda Theatr Arad Goch i letya perfformiad rhyngwladol, rhan o Gŵyl Agor Drysau 2024.
- 3 staff wedi dilyn cwrs cyflwyniad i arwyddiaith BSL.
- Lletya a chefnogi 14 o glybiau CFFI yng Ngwyl Ddrama CFFI Ceredigion.
- Pantomeim Theatr Felinfach wedi bod yn destun i'r rhaglen ITV Welsh Lives.

**Cyngor Celfyddydau Cymru:**
Adolygiad Buddsoddiad Portffolio Refeniw wedi ei gynnal mis Mawrth 23 a'r penderfyniadau ar bortffolio newydd CCC wedi ei gyhoeddi ym mis Medi. Theatr Felinfach wedi cadw'r statws o fewn y portffolio gyda'r un lefel o fuddsoddiad. Serch hynny, CCC wedi adolygu eu cynnig o gyllid gyda 2.5% o ostyngiad i bob grant.

**Datblygu Adnoddau Theatr Felinfach:**
Cyflwyniadau wedi eu gwneud i Lywodraeth Cymru, Cyngor Celfyddydau Cymru ar y weledigaeth o wella adnoddau THF drwy fuddsoddi mewn adeilad newydd. Cyfarfod pellach 5/3/24 gyda chynrychiolaeth o Lywodraeth Cymru a Chyngor Celfyddydau Cymru.

**Staffio:**
5 aelod staff llawn amser: Technegydd Sain/Rheolwr Llwyfan, Uwch Swyddog Creadigol, Cydlynydd Marchnata a Blaen Tŷ, Gofalwr/Tirmon

3 aelod staff rhan amser: Cydlynydd yr Adran Wisgoedd, Swyddogion Creadigol x 2 (cyfnod mamolaeth)

Swyddi na chânt eu llenwi: Technegydd Goleuo/Digidol, Swyddog Busnes/Marchnata, Swyddog Diwylliant

**<u>Argymhelliad / Argymhellion:</u>**
**Derbyn yr adroddiad fel cofnod o weithgaredd Theatr Felinfach a'i nod o hybu'r defnydd o'r Gymraeg a'i diwylliant drwy raglenni cyfranogi celfyddydol.**

**<u>Papurau Cefndirol:</u>**
Dim

**<u>Atodiadau:</u>**
Dim

**Enw Cyswllt:**
Dwynwen Lloyd Llywelyn

**Swyddogaeth:**
Pennaeth Theatr Felinfach a'r Campws

**Dyddiad:**
22/2/24

**Acronymau:**
CSC – Cyngor Sir Ceredigion
ADY – Anghenion Dysgu Ychwanegol
CCC – Cyngor Celfyddydau Cymru
BSL – Iaith Arwyddo Prydain

Mae'r dudalen yn wag yn fwriadol

## CYNGOR SIR CEREDIGION COUNTY COUNCIL

| | |
|---|---|
| **Adroddiad i'r:** | **Pwyllgor Iaith** |
| **Dyddiad y Cyfarfod:** | **15fed o Fawrth 2024** |
| **Teitl:** | **Adroddiad Blynyddol Cered: Menter Iaith Ceredigion** |
| **Pwrpas yr adroddiad:** | **Diweddaru aelodau ar weithgaredd Cered yn ystod y cyfnod Ebrill 2023 - Mawrth 2024 gan roi trosolwg o lwyddiannau ac amlinellu rhaglen waith ar gyfer 2024-25** |

**Cefndir:**

### Nod y Fenter

Cered yw'r enw ar Fenter Iaith Ceredigion ac fel rhan o Adran Ysgolion a Diwylliant Cyngor Sir Ceredigion rydym yn darparu gweithgareddau, gwybodaeth, cyngor, cefnogaeth ac arweiniad er mwyn cynnal a datblygu'r defnydd o'r Gymraeg fel iaith gymunedol hyfyw yng Ngheredigion.

Ers ein sefydlu yn 1999, mae swyddogion Cered wedi llwyddo i ddatblygu ystod eang iawn o brosiectau, digwyddiadau a gweithgareddau sydd wedi ceisio hybu a hyrwyddo'r Gymraeg fel iaith fyw yng Ngheredigion.

Tra fod mwyafrif Mentrau Iaith Cymru yn Fentrau Iaith annibynnol, mae Cered yn un o dair Menter Iaith sydd yn cael ei redeg gan awdurdod lleol ar hyn o bryd. Golyga hyn fod staff Cered yn rhan ganolog o waith cynllunio ieithyddol Cyngor Sir Ceredigion gan gydweithio'n agos gyda swyddogion ar draws yr awdurdod.

### Cyfraniad y Fenter i Strategaethau ehangach

Mae Cered yn gweithredu cynlluniau sydd yn cyflawni nod y Fenter ynghyd a blaenoriaethau strategol Cymraeg 2050: Miliwn o Siaradwyr– Strategaeth Iaith Llywodraeth Cymru sef: Cynyddu nifer y siaradwyr Cymraeg, Cynyddu'r defnydd o'r Gymraeg a Chreu amodau ffafriol – seilwaith a chyd-destun.

Mae gwaith Cered hefyd yn adlewyrchu blaenoriaethau Strategaeth Iaith Ceredigion 2018-23, strategaeth sydd yn nodi bod cynaliadwyedd yr iaith Gymraeg yn ddibynnol ar y broses o gryfhau cymunedau Cymraeg trwy ddarparu digon o gyfleoedd addysgol, diwylliannol a chymdeithasol i ddefnyddio'r iaith yn ddyddiol.

Yn ogystal, mae gwaith y Fenter yn cefnogi Cynllun Llesiant Lleol Ceredigion 2023-28 a'r amcan corfforaethol i gryfhau a chynyddu defnydd o'r Gymraeg. Fel Menter sydd yn gweithredu fel rhan o Gyngor Sir Ceredigion mae cyfleoedd amlwg i gydweithio a chyd-gynllunio'n agos gyda nifer o wasanaethau'r Cyngor gan gynnwys gwasanaethau ysgolion a Dysgu Gydol Oes er mwyn galluogi'r Fenter i gyflawni ei amcanion fel sbardun a hwylusydd o safbwynt cynyddu'r defnydd o'r Gymraeg.

**Cyllido**


Mae Cered yn derbyn cyllid craidd trwy Grant Hybu a Hwyluso Defnydd y Gymraeg Llywodraeth Cymru. Yn 2023-24 derbyniwyd grant o £120,626.00 (ffigwr sydd wedi bod yn sefydlog ers bron i 10 mlynedd). Daw gweddill cyllid Cered trwy law Cyngor Sir Ceredigion.

Mae'r cynnig grant blynyddol oddi wrth y Llywodraeth yn seiliedig ar gyfres o dargedau penodol sy'n seiliedig ar y thema strategol "Cynyddu Defnydd o'r Gymraeg". Disgwylir i'r Fenter adrodd ar gynnydd yn erbyn y targedau hyn yn gwarterol.

Yn 2023-24 derbyniodd Cered gyllid Cynnal y Cardi er mwyn datblygu dau gynllun sef ein Clybiau Lego sydd yn darparu cyfle poblogaidd i blant ddefnyddio eu Cymraeg tu fas i oriau ysgol ac e-lyfr Croeso i Geredigion i newydd-ddyfodiaid i'r sir.

**Strwythur a Staffio**

Erbyn diwedd 2023-24 roedd strwythurau a llinellau rheoli y Fenter wedi gweld newidiadau yn dilyn colli un swyddog datblygu profiadol rhan amser a chreu rôl llawn amser newydd i swyddog rhan amser arall.




**Partneriaid**

Mae cydweithio gyda phartneriaid yn rhan annatod o waith y Fenter. Trwy weithio yn gymunedol rydym yn naturiol yn meithrin perthnasau gwaith effeithiol gydag ystod eang o bartneriaid. Eleni rydym wedi sefydlu rhwydwaith Gigs Cymraeg Ceredigion er mwyn tynnu trefnwyr gigs Cymraeg y sir at ei gilydd er mwyn lleihau gwrthdaro dyddiadau ac i gynllunio prosiectau ar y cyd.

Mae partneriaid Cered yn cynnwys y canlynol: Llywodraeth Cymru, Mentrau Iaith, Prifysgol Aberystwyth, Cymraeg i Blant, Theatr Felinfach, Llyfrgell Ceredigion, Amgueddfa Ceredigion, Urdd, Gyrfa Cymru, Canolfan y Celfyddydau, Pwyllgorau Cymunedol ayyb.

**Gweithgaredd Cered 2023-24**

**Prif benawdau** (hyd at ddiwedd Cwarter 2)

| **Allbynnau** | **Nifer** | |
|---|---|---|
| Nifer o weithgareddau i blant | 32 | |
| Nifer o blant yn mynychu | 735 | |
| Nifer o weithgareddau i bobl ifanc (11-25 oed) | 5 | |
| Nifer o bobl ifanc (11-25 oed) yn mynychu | 303 | |
| Nifer o weithgareddau i deuluoedd | 17 | |
| Nifer o oedolion a nifer o blant yn mynychu gweithgareddau i deuluoedd | Plant 542 | Oedolion 757 |
| Nifer o weithgareddau i oedolion | 41 | |
| Nifer o oedolion yn mynychu | 324 | |

| **Allbynnau** | **Nifer** |
|---|---|
| Nifer o negeseuon/postiadau rydych wedi'u cyhoeddi | Cered:<br>249 post<br><br>29,526 cyrhaeddiad<br><br>Browlan:<br>254 post<br><br>10,277 cyrhaeddiad |
| Nifer o weithgareddau byw ar-lein/hybrid | 23 |
| Nifer sydd wedi cymryd rhan mewn gweithgareddau byw ar-lein | 120 |

**Manylion y Ddarpariaeth**

Gweithredwyd rhaglen amrywiol o weithgaredd ddigidol yn cynnwys y canlynol:

Plant a Phobl Ifanc

- Digwyddiadau a sesiynau i deuluoedd – e.e. Bwrlwm Barlys a Cered ar y Prom
- Grŵp ukulele Iwcadwli i Blant – cyfle Cymraeg newydd i blant yr ardal
- Cwis Dim Clem – cystadleuaeth gwis i blant bl.6 ysgolion Ceredigion
- Theatr Fach Llandysul – clwb drama poblogaidd i blant
- Tîm Gohebwyr Chwaraeon Ifanc – cyfle i gael blas o sylwebu pêl droed
- Clybiau Lego – tri clwb yn weithredol i blant yn Llambed, Aberaeron ac Aber

Cymunedol
- Cymru United – podlediad cyfrwng Saesneg wedi ei anelu i ddysgwyr
- Cefn y Rhwyd – podlediad pêl droed Cymraeg
- Boreau coffi a sesiynau coffi a chlonc – creu cyfleoedd i ddysgwyr ymarfer
- Ffeiriau Iaith – digwyddiadau i agor y drws i gyfleoedd i ddefnyddio’r Gymraeg
- Croeso i Geredigion – cynllun cardiau post ac e-lyfr i newydd ddyfodiaid
- Ar Gered – teithiau cerdded Cymraeg ym mynyddoedd yr Elenydd
- Hel Atgofion – sesiynau Cymraeg ar gyfer grwpiau henoed
- Gigs Cymraeg Ceredigion – datblygu’r gynulleidfa i gerddoriaeth Cymraeg
- Gŵyl Y Fari Lwyd – digwyddiad torfol yn Aberteifi a Llandudoch
- Browlan – cymuned ar-lein Gymraeg ar gyfer De Ceredigion a Gogledd Penfro
- Dathliadau Gŵyl Dewi – trefnu gorymdeithiau a chystadlaethau
- Ras yr Iaith – digwyddiad torfol i blant yr ardal ar Bromenâd Aberystwyth
- Offer cyfieithu – offer yn cael ei logi gan drefnwyr digwyddiadau amrywiol
- Hapus i Siarad – cefnogi defnydd o’r Gymraeg gan fusnesau a dysgwyr
- Iwcadwli – grŵp ukulele poblogaidd Cered yn Aberystwyth

**Cynlluniau 2023-24**

Cyflwynwyd cais am grant Hybu a Hyrwyddo’r Gymraeg ar gyfer 2023-2024 i Lywodraeth Cymru ym mis Rhagfyr 2023.

Mae rhai targedau ychwanegol wedi eu cynnwys megis y canlynol:

- Digwyddiadau i Deuluoedd – canolbwyntio ar ddatblygu nifer llai o ddigwyddiadau mwy o faint mewn lleoliadau ar draws y sir.
- Gweithdai Cerddoriaeth – darparu sesiynau i ddatblygu bandiau ac artistiaid Cymraeg newydd yn yr ysgolion uwchradd.
- Hwyl a Hamdden – efelychu model llwyddiannus y clwb Cymraeg hwn i henoed yn ardal Dyffryn Aeron gan ddatblygu grŵp tebyg lle mae yna fwlch.
- Hapus i Siarad – datblygu’r cynllun hwn i drefi eraill Ceredigion wedi diwedd y cyfnod peilot yn Aberteifi a Llambed.
- Gwreiddiau Gwyllt – cynnal gweithgareddau sydd yn ysbrydoli pobl o bob oed i fwynhau byd natur trwy gyfrwng y Gymraeg a chodi ymwybyddiaeth o eiriau a dywediadau Cymraeg lleol sydd yn ymwneud â natur.

**Blaenoriaethau Cered 2023-24**

- Parhau i ddarparu gweithgareddau, gwybodaeth, cyngor, cefnogaeth ac arweiniad er mwyn cynnal a datblygu’r defnydd o’r Gymraeg fel iaith gymunedol hyfyw yng Ngheredigion.

I gyflawni hynny byddwn yn:
- Gweithio tuag at gyflawni’r targedau a gytunwyd gyda’r Llywodraeth
- Codi ymwybyddiaeth am y Fenter trwy ymgysylltiad staff â chymunedau

**Argymhelliad / Argymhellion:**
**Bod y Pwyllgor Iaith yn derbyn yr adroddiad blynyddol fel cofnod o waith Cered yn ystod y cyfnod dan sylw ac yn nodi gwaith y Fenter wrth hyrwyddo a datblygu defnydd y Gymraeg yng Ngheredigion.**

**Papurau Cefndirol:**
Dim

**Atodiadau:**
Dim

**Enw Cyswllt:**
Steffan Rees

**Swyddogaeth:**
Arweinydd Tîm Cered

**Dyddiad:**
14eg Chwefror 2024

**Acronymau:**
Dim

Mae'r dudalen yn wag yn fwriadol

# CYNGOR SIR CEREDIGION COUNTY COUNCIL

| | |
|---|---|
| **Adroddiad i'r:** | **Pwyllgor Iaith** |
| **Dyddiad y Cyfarfod:** | **15fed o Fawrth 2024** |
| **Teitl:** | **Hybu hyder a hyrwyddo'r Gymraeg a Chymreictod yn y gweithle** |
| **Pwrpas yr adroddiad:** | **Sôn am ddatblygiadau'r E-Gylchlythyr** |

**Cefndir:**

Un o ddyletswyddau y **Swyddog Polisi Iaith** yw i drefnu gweithgareddau er mwyn hybu a hyrwyddo arloesedd a gwelliant parhaus fel safbwynt o gynyddu'r Gymraeg yn y gweithle. Gall gynnwys gweithgareddau arferol i godi hyder cydweithwyr i ddefnyddio'r Gymraeg. Ym mis Ionawr creuwyd cylchlythyr electronig i ddathlu Diwrnod Santes Dwynwen. Agorwyd y linc 352 o weithiau. https://new.express.adobe.com/webpage/4MH8ziwJADuEI.

Yn dilyn trafodaeth gyda Steffan Rees Arweinydd Tim Cered a Huw Owen Swyddog Hyfforddi Cymraeg Gwaith rydym ni wedi datblygu'r syniad i greu cylchlythyr electronig fydd yn mynd allan ar CERINET yn unig ar ddydd Gwener cyntaf bob mis – **GWENA 'Mae'n ddydd Gwener'.** Mae 'Cylchlythyr Misol' fel hyn yn rywbeth allai fod o fudd i hyrwyddo'r Gymraeg o fewn y gweithle ac yn fodd i'r gweithwyr sy'n dysgu Cymraeg gyda Huw ymarfer ei sgiliau gwrando, darllen ac ysgrifennu Cymraeg. Y tro yma fe fyddwn yn adolygu'r cylchlythyr o fewn 4/5 mis drwy greu holiadur byr. Cyhoeddwyd **GWENA 'Mae'n ddydd Gwener'** ar CERINET ar Fawrth y Cyntaf.

**Dyma enghraifft o'r cynnwys:**

Cwis/Posau

Hysbysebu digwyddiadau i hybu'r Iaith/Cymreictod o gwmpas Ceredigion

Sbardun/Achlysur e.e Santes Dwynwen / Dydd Gwyl Dewi / Dydd T.Llew Jones

Podlediadau/Erthyglau

Rhestr chwarae caneuon Cymraeg

Rhestr o lyfrau Cymraeg

Fideos byr a fydd yn gymorth i ynganu geiriau/brawddegau (ac yn atgyfnerthu gwersi Iaith Huw Owen

Prif nod y cylchgrawn yw i hyrwyddo’r Gymraeg a Chymreictod mewn amrywiaeth o ffyrdd drwy hybu gweithgareddau CERED – Gigs/digwyddiadau amrywiol a.y.y.b gan sicrhau bod yna linc rhwng Huw y tiwtor, y dysgwyr, siaradwyr llai hyderus, Cymry Cymraeg gweithle Cyngor Sir Ceredigion, CERED a finnau fel Swyddog Polisi Iaith.

**Argymhellion:**
**Parhau i ddatblygu ac esblygu hwn gan werthuso’r adnodd mewn 4 i 5 mis.**

**Atodiadau:**
1. Cylchlythyr Electronig Santes Dwynwen- https://new.express.adobe.com/webpage/4MH8ziwJADuEI

2. Cylchlythyr misol Gwena – Mae’n ddydd Gwener- https://new.express.adobe.com/webpage/pcmiT6SACMuEI

**Enw Cyswllt:**
Carys Lloyd-Jones

**Swyddogaeth:**
Swyddog Polisi Iaith Cyngor Sir Ceredigion

**Dyddiad:**
26/2/2024